# Elfed Owen ar drywydd achau Griffith Roberts o Lanuwchllyn

ROEDD Griffith Roberts yn hen-hen daid i mi ar ochr teulu fy nhad, ac weithiau roedd yn cael ei alw yn Griffith Jones gan ei fod yn byw mewn adeg pan roedd yna gymysgwch patronymaidd yng Nghymru, gan nad oedd defnydd cyfenw wedi ei llawn sefydlu.

**Hendre Mawr, Llanuwchllyn**

Ar garreg fedd Griffith Roberts, ym mynwent Llangywer, ar ochr ddeheuol Llyn Tegid, dywedir mai enwau ei rieni oedd Robert a Jane Jones o Hendre Mawr, Llanuwchllyn, a bod Griffith Roberts wedi marw yn 1864 yn 68 mlwydd oed, ac felly cafodd ei eni yn 1796. Nid yw cofnod bedyddio Griffith Roberts wedi ei ddarganfod, ond yng Nghyfrifiad 1851 dywedir iddo gael ei eni yn Llanuwchllyn.

Ym mynwent yr Hen Gapel, Llanuwchllyn, ac yn agos i feddau yr enwogion Michael Jones a'i fab, mae bedd Jane, a oedd yn briod â John Hughes, Maes Mathew, ac yn chwaer i Griffith Roberts. Mae cofnod ei bedyddiad hi i'w weld yng Nghofresti Plwyf Llanuwchllyn, yn dweud iddi gael ei geni yn 1784 ym Mhenaran, sydd yn cynnwys yr ardal o gwmpas Hendre Mawr.

Nid oes cofnodion o frodyr a chwiorydd eraill i Griffith Roberts wedi eu darganfod, ond mae'n bosib mai'r rheswm am hyn yw fod y Cofresti Plwyf ac Adysgrifau'r Esgob, Llanuwchllyn, yn yr adeg 1790 i 1800, mewn cyflwr drwg iawn, hefo llai o gofnodion o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol (sydd yn awgrymu, hwyrach, fod cofnodion wedi cael eu gadael allan). Roedd rhai o'r cofnodion yn anodd i'w darllen ac wedi cael eu gwneud yn waeth o achos fod rhai o'r tudalennau wedi eu niweidio ar ôl cael ei storio am flynyddoedd mewn lle llaith.

Mae'n bosib mai brawd i Griffith Roberts oedd David Roberts, ac yn ôl Cofnodion Capel y Bedyddwyr, cafodd ei ordeinio yn Llangynydir yn 1816, ac wedyn aeth yn weinidog ym Mhontypwl a llawer o lefydd eraill yng Nghymru. Mae'r cofnodion yma yn dweud iddo gael ei eni yn 1793, yn Hendre Bach, Llanuwchllyn, sydd ond ychydig o lathenni o Hendre Mawr. Eto, nid yw cofnod ei fedyddiad wedi ei ddarganfod i gadarnhau a oedd o yn frawd i Griffith Roberts.

Roedd gan David Roberts syniadau cryf y Bedyddwyr ac roedd wedi ei brentisio yn Llanuwchllyn hefo crydd o'r enw Ellis Roderick, a oedd yn Annibynnwr, ac yn aelod o'r Hen Gapel. Un diwrnod cawsant ffrae chwyrn ynglŷn â'u gwahanol grefydd, a'r canlyniad oedd i David gael ei ddiswyddo o'i brentisiaeth. Gadawodd Lanuwchllyn a symudodd i weithio gyda William Roberts ym Mrynsiencyn, Sir Fôn, a oedd hefyd yn grydd ac yn weinidog gyda'r Bedyddwyr. Yn Sir Fôn, daeth David Roberts o dan ddylanwad y pregethwr enwog, Christmas Evans, a chafodd ei fedyddio drwy ymdrochiad ganddo cyn iddo ddod yn weinidog ei hun. Yn y pulpud roedd David Roberts yn ddyn tanbaid a adnabyddid fel yr 'Yr Utgorn Arian', a dywedwyd ei fod yn bosib clywed ei lais filltir i ffwrdd ar ddiwrnod clir!

Mae rhieni Griffith Roberts, sef Robert a Jane Jones, wedi eu claddu ym mynwent Eglwys Llanuwchllyn a'u cerrig bedd yn union i'r chwith o ddrws yr Eglwys, sydd, hwyrach, yn arwydd eu bod yn aelodau selog o'r Eglwys, ac felly ddim yn aelodau o'r Hen Gapel, fel yr oedd eu mab Griffith a'u merch, Jane.

Yng Nghyfrif Degwm Llanuwchllyn 1811 mae yna ddau gofnod gwahanol i'r Hendre, Penaran – yr un mwyaf yn enw Griffith Jones, am £3.12s.6d a'r un llai yn enw Robert Jones am 13s.0d. (Mae'n debyg fod y ddwy Hendre yn cyfeirio at Hendre Mawr a Hendre Bach, ac mae Griffith oedd mab Robert Jones.) Erbyn 1812–1816 roedd y Cyfrif yn cynnwys y ddau Hendre a'r un perchnogion, ond roedd ond un tâl am £3.13s.0d yn erbyn enw Griffith Jones.

**Dolgellau**

O gofnodion y teulu ceir gwybodaeth fod Griffith Roberts wedi priodi Jane Thomas o Lanycil a mai enw eu plentyn cyntaf oedd Robert, a gafodd ei eni yn 1818. Nid oes cofnod priodas wedi ei ddarganfod yn y plwyfi o gwmpas y Bala (nac yng Ngogledd Cymru) rhwng personau o'r enwau yma, rhwng 1814 a 1818 (y dyddiadau mwyaf tebygol), ond ceir priodas yn Nolgellau rhwng Griffith Jones a Jane Jones ar 14 Mawrth 1817, gyda William Thomas a Thomas Jones yn dystion. Felly eto, mae yn bosib fod cyfenwau wedi cael eu defnyddio – Jane yn ferch i Thomas Jones ac yn cael ei hadnabod fel Jane Jones neu Jane Thomas. Yn yr un modd roedd Griffith yn fab i Robert Jones ac yn cael ei adnabod fel Griffith Jones neu Griffith Roberts. O leiaf, roedd y cofnod priodas yn gyson yn defnyddio cyfenwau.

**Tŷ Newydd, Llanuwchllyn.**

Mae cofnod bedydd eu plentyn cyntaf yn darllen fel y canlynol – Robert mab Griffith Roberts (llafurwr) a Jane Roberts o Tŷ Newydd, Llanuwchllyn wedi ei fedyddio gan Mr. Morgan, o Fachynlleth, ar 31 Ionawr 1819 yn Yr Hen Gapel, Llanuwchllyn.

Roedd Tŷ Newydd yn arfer sefyll yn union ar draws y ffordd i Elusendai Dolhendre ym Mhennantlliw, Llanuwchllyn. Symudwyd adfeilion olaf Tŷ Newydd rai blynyddoedd yn ôl, ond mae cyflwr yr Elusendai yn dda iawn o ystyried iddynt cael ei hadeiladu yn 1721.



*Jane Roberts.*



*Yr Elusendai ym Mhennantlliw.*

Yn yr amser yma, yn 1819, ar ddiwedd rhyfeloedd Napoleon, roedd Robert Thomas (Ap Vychan) – y pregethwr enwog, ysgrifennwr a bardd, yn 10 mlwydd oed ac yn byw yn Nhan-y-Castell ryw hanner milltir i ffwrdd o Tŷ Newydd. Cafodd Ap Vychan ei addysg gan ei dad, a oedd yn llafurwr ond yn ddyn diwylliedig ac yn gorfod byw mewn tlodi enbyd gyda'i deulu o 10 plentyn. Yn y pen draw, daeth Ap Fychan yn Athro Diwinyddiaeth yng Ngholeg yr Annibynwyr yn y Bala, ac yn ei hunangofiant mae'n rhoi disgrifiad lliwgar o fywyd ym Mhennantlliw, Llanuwchllyn yn ystod ac ar ôl y rhyfeloedd Napoleon, pan roedd buddugoliaethau yn cael eu dathlu tra roedd teuluoedd yn byw mewn tlodi mawr. Roedd yn eironig i feddwl tra roedd teulu Ap Vychan yn byw mewn tlodi nad oeddynt yn gwybod fod yna aur islaw Craig Carndochan, ger Tan y Castell. Cafodd yr aur ei ddarganfod tua 1880, ac felly roedd yna elfen o wirionedd yn yr hen chwedl Geltaidd fod yna delyn aur mewn ogof yng nghrombil Carndochan.

Priododd mab Griffith Roberts, sef Robert, ag un o chwiorydd Ap Vychan. Roeddynt yn byw yn Hendre Bach, Penaran, cyn iddynt ymfudo i'r UDA tua 1852. Fel llawer iawn o bobol eraill yn yr ardal yr adeg yma, gorfod iddynt ymfudo i edrych am fywyd gwell a gyda'r gobaith o fod yn berchenogion tir ac yn eiddo ffermydd eu hunain.

Cofnod bedydd plentyn nesaf Griffith Roberts:

Cafodd Jane, merch Griffith Roberts, llafurwr, a Jane Thomas o Tŷ Newydd, Llanuwchllyn ei bedyddio gan Michael Jones yn yr Hen Gapel, Llanuwchllyn ar 28 Mai 1820. Bu farw Jane yn blentyn.

Cofnod bedyddio eu trydydd plentyn:

Cafodd Thomas, mab Griffith Roberts, llafurwr, a Jane Thomas o Tŷ Newydd, Llanuwchllyn, ei fedyddio gan Michael Jones yn yr Hen Gapel, Llanuwchllyn ar 14 Ebrill 1822. Ymfudodd Thomas i'r UDA, yntau, pan yn ddyn ifanc.